



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

# Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol

---

**Blaenoriaethau Negodi i Gymru**

# Cynnwys

1	Rhagair y Prif Weinidog	1
2	Crynodeb	2
3	Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru	3
	Rhan I: Darpariaethau cychwynnol	5
	Rhan II: Partneriaeth Economaidd	7
	Rhan III: Partneriaeth Ddiogelwch	12
	Rhan IV: Trefniadau Sefydliadol a Threfniadau Llorweddol Eraill	12
	Rhan V: Proses Arfaethedig	13
	Atodiad A: Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar Ymadael â'r UE	14
	Atodiad B: Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Trefniadau Masnachu â'r UE ar ôl Brexit: Goblygiadau Economaidd	15

# 1 Rhagair y Prif Weinidog

**Ers y refferendwm ar yr UE yn 2016 mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei llywio gan fwriad clir i ddiogelu dyfodol Cymru o dan ba amgylchiadau bynnag y mae Brexit yn eu creu. Mae'n amlwg bellach, gan fod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd – er nad yw hynny ar y telerau y byddem yn eu dymuno – bod rhaid inni droi ein sylw at y dyfodol.**

Cyn hir, bydd Llywodraeth y DU yn dechrau negodiadau â'r UE ynghylch cytundeb hirdymor parhaol. Mae'r cytundeb hwn yn hanfodol bwysig i Gymru. Bydd yn pennu sail ein masnach yn y dyfodol, a'n perthynas ehangach â'r UE, am ddegawdau i ddod. Bydd Llywodraeth y DU yn seilio ei strategaeth negodi ar yr hyn a nodir yn y Datganiad Gwleidyddol, ond mae'r dystiolaeth yn glir mai'r pellaf y mae'r DU yn symud oddi wrth yr integreiddio economaidd y mae Marchnad Sengl ac Undeb Tollau'r UE yn ei ddarparu, y mwyaf fydd y niwed economaidd. Yr UE yw ein partner masnachu pwysicaf, a bydd yn parhau i fod felly. Ni allai mwy fod yn y fantol.

O ystyried hynny, byddwn yn parhau i herio unrhyw ddull o ymdrin â'r negodiadau sy'n rhoi blaenoriaeth i allu'r DU i symud oddi wrth safonau rheoleiddiol yr UE. Byddai dull o'r fath yn ddiffygiol iawn ac yn niweidio Cymru yn ddirifol. Yn hytrach, mae angen inni ddiogelu'r gorau o'r hyn y mae Ewrop wedi'i gyflawni. Mae hyn yn cynnwys cydweddu â'r safonau uchaf o ran diogelu'r amgylchedd sydd wedi sicrhau aer, traethau a dŵr glanach, a chynnal neu godi lefelau diogelu gweithwyr. Mae Llywodraeth y DU yn honni ei bod am gynnal safonau uchel a byddwn yn mynnu ei bod yn cadw at ei gair. Byddwn felly yn gwrthwynebu unrhyw agenda ddadroleiddio, a fydd yn peri niwed i fuddiannau pobl.

Rydym yn gwrthod fersiwn o Brexit sydd wedi'i seilio ar Brydain sydd â chyflogau isel, sicrwydd isel o ran swyddi a llai o reoleiddio ac sy'n gaeth i fodel economaidd o anghydraddoldeb cynyddol.

Rydym am weld dyfodol i Gymru ar ôl Brexit sy'n parchu ein holl ddinasyddion a chymunedau. Mae Cymru yn cofleidio Ewrop, ei dinasyddion a'r byd ehangach. Rydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae dinasyddion yr UE wedi'i wneud ac y byddant yn parhau i'w wneud at ein heconomi, at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac at ein cymunedau.

Rydym am gael perthynas economaidd sy'n seiliedig ar bartneriaeth â'n cymdogion yn Ewrop ac ar gystadleuaeth deg.

Rydym yn annog ein busnesau i fasnachu'n fyd-eang a manteisio ar ein twf cyflym, ac rydym yn parhau i groesawu, gwerthfawrogi a chefnogi ein buddsoddwyr o bob cwr o'r byd.

Er mwyn cyflawni hyn i gyd, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r negodiadau i ddiogelu buddiannau Cymru, gan gynnwys y sector gweithgynhyrchu, bwyd-amaeth a gwasanaethau a fasnachir. Mae angen cytundeb arnom sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru a'r DU gyfan. Ac mae angen i'r DU barhau'n undeb economaidd sydd wedi'i seilio ar barch o bob ochr tuag at gyfrifoldebau pob un o lywodraethau'r Undeb.

Nid ydym yn credu bod modd sicrhau'r cytundeb gorau mewn ychydig fisoedd o negodiadau yn unig. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â cheisio estyniad i'r cyfnod pontio, os bydd ei angen, yn fyrbwyll ac yn dangos diffyg cydnabyddiaeth o'r heriau sydd i ddod. Byddwn yn parhau i ddadlau y dylai Llywodraeth y DU adael y posibilrwydd yn agored am estyniad y tu hwnt i ddyddiad terfyn mympwyol Rhagfyr 2020 fel y mae'r Cytundeb Ymadael yn darparu ar ei gyfer. Byddai hynny'n sicrhau mai negodi'r fargen orau posibl fyddai'r flaenoriaeth, nid cadw at ddyddiad terfyn a bennwyd ar hap.

Yn y papur hwn, rydym yn egluro'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r holl elfennau hyn mewn modd sy'n gwarchod buddiannau hanfodol Cymru. Rydym yn ei gwneud yn glir bod angen newidiadau er mwyn gwarchod buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a'r DU gyfan. Byddwn yn parhau i geisio dylanwadu ar safbwynt y DU ac yn parhau i alw am rôl ffurfiol yn y negodiadau o'r dechrau i'r diwedd, o'r broses o gytuno ar y mandadau negodi hyd at y cytundeb terfynol. Ni all Llywodraeth y DU ar ei phen ei hunan siarad ar ran y DU gyfan: rhaid i lais y llywodraethau datganoledig gael ei glywed hefyd.

## 2 Crynodeb

# Bydd y DU yn ymadael â'r UE ar 31 Ionawr, ac felly bydd y negodiadau ynghylch y berthynas rhwng y DU â'r UE yn y dyfodol yn dechrau.

Rydym yn credu'n gryf y dylai'r amserlen ar gyfer y negodiadau hynny fod yn ddigon hyblyg i helpu'r ddwy ochr i ddod i'r cytundeb cywir. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiystyru'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod pontio yn fyrbwyll, ac ni fydd ond yn cyfyngu ar y negodiadau mewn modd artiffisial. Rhaid inni osgoi'r posibil rwydd o syrthio dros ddibyn arall ym mis Rhagfyr 2020 os na cheir cytundeb cynhwysfawr dros y flwyddyn nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU fandad i seilio perthynas y DU yn y dyfodol ar y Datganiad Gwleidyddol y cytunodd yr UE iddo ym mis Hydref 2019. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd ein cysylltiadau â'r UE, rydym yn credu bod nifer o feysydd pwysig o ran y berthynas rhwng y DU a'r UE y dylid edrych yn agosach ac yn fanylach arnynt na'r hyn a nodir yn y Datganiad Gwleidyddol.

### Ceir crynodeb o'r rhain yn y pwyntiau canlynol:

- O ystyried pwysigrwydd aruthrol marchnadoedd yr UE i'n heconomi, yn enwedig i sector gweithgynhyrchu, sector amaethyddiaeth a sector gwasanaethau Cymru, rhaid i'r DU flaenoriaethu marchnadoedd yr UE dros drefniadau masnach â gwledydd eraill.
- Er ein bod yn cydnabod y bydd ein perthynas â'r UE yn y dyfodol yn seiliedig ar Gytundeb Masnach Rydd, rhaid i'r DU gael mynediad mor gyflawn â phosibl at farchnadoedd yr UE, gan gael gwared ar dariffau a lleihau'r rhwystrau di-dariff. Mae hyn yn golygu:
  - Dod i gytundeb cyffredinol teg â'r UE i sicrhau cystadleuaeth agored a theg, gan gynnwys cydweddiad o ran safonau amgylcheddol, safonau cymdeithasol a safonau'r farchnad lafur
  - Sicrhau cydweddiad dynamig â rheolau a rheoliadau'r UE i ofalu na ddaw unrhyw rwystrau newydd rhag masnachu i rym
  - Bod yn rhan o gyrff ac asiantaethau'r UE, fel yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd, i gefnogi cydweddiad dynamig
- Sicrhau bod y dewisiadau o ran llywodraethiant ein perthynas yn y dyfodol, a fframwaith mewnfudo y DU yn y dyfodol, yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i farchnadoedd yr UE.
- Sicrhau bod partneriaeth ddiogelwch y dyfodol mor gyflawn â phosibl a'i bod yn efelychu'r trefniadau presennol gymaint â phosibl, gan gynnwys cydlynid mewmol ac allanol.
- Parhau i gymryd rhan yn rhaglenni pwysig yr UE, gan gynnwys Erasmus+, Horizon Ewrop, Ewrop Greadigol ac INTERREG, i enwi dim ond rhai.
- Cydnabod y bydd llywodraethau datganoledig yn awyddus i fod yn rhan o raglenni'r UE, hyd yn oed os bydd rhai o wledydd eraill y Deyrnas Unedig, neu bob un ohonynt, yn dewis peidio â gwneud hynny.
- Mae angen brys i gael asesiad digonolrwydd cadarnhaol gan yr UE i ddiogelu llif data.
- I gloi, rhaid i'r Llywodraeth Ddatganoledig gymryd rhan lawn yn y negodiadau ac yn y Cyd-bwyllgor a fydd yn goruchwyllo'r broses o roi'r trefniadau ar waith.

# 3 Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Blaenoriaethau Negodi i Gymru

## Dogfen yw'r "Datganiad Gwleidyddol" sy'n gysylltiedig â Chytundeb yr UE a'r DU ar Ymadawriad y DU â'r UE

Mae'r **Datganiad Gwleidyddol** yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. Dogfen wleidyddol ei natur yw hi ac nid yw'n ffurfio rhan gyfreithiol rwymol o'r cytundeb; yn hytrach, mae'n nodi'r telerau ar gyfer cynnal negodiadau yn y dyfodol ynghylch cytundeb mwy hirdymor.

### **Datganiad Gwleidyddol – strwythur bras**

**Mae'r Datganiad Gwleidyddol wedi'i rannu'n bum rhan sy'n amlinellu agweddau amrywiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.**

#### **Rhan I: Darpariaethau Cychwynnol**

Mae'r Rhan hon yn amlinellu egwyddorion lefel uchel i fod yn sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE gan nodi meysydd trawsbynciol sy'n sylfaenol i'r cydweithredu hwnnw gan gynnwys llif data a chyfranogi yn rhaglenni'r UE.

#### **Rhan II: Partneriaeth Economaidd**

Mae'r Rhan hon yn ymdrin â phartneriaeth economaidd y DU a'r UE yn y dyfodol gan gynnwys symud nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf, pobl a meysydd sectorol penodol o fudd economaidd.

#### **Rhan III: Partneriaeth Ddiogelwch**

Mae'r Rhan hon yn amlinellu uchelgeisiau'r dyfodol ar gyfer partneriaeth diogelwch a chydweithredu gan gynnwys diogelwch allanol a domestig, yn ogystal â meysydd penodol o ddiogelwch thematig megis iechyd, seiber a diogelwch sifil.

#### **Rhan IV: Trefniadau Sefydliadol a Threfniadau Llorweddol Eraill**

Mae'r Rhan hon yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu posibl i sicrhau bod y berthynas y cytunwyd arni at y dyfodol yn gweithio'n briodol.

#### **Rhan V: Proses Arfaethedig**

Mae'r Rhan olaf yn amlinellu'r camau nesaf i geisio dod i gytundeb ar y materion sydd yn y rhannau eraill o'r Datganiad Gwleidyddol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set o safbwyntiau sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru, gan wneud hynny mewn modd cyson iawn. Disgrifiwyd ein hymagwedd yn gynhwysfawr yn ein Papur Gwyn **Diogelu Dyfodol Cymru** (Ionawr 2017) a amlinellodd y ffurf leiaf niweidiol ar Brexit. Yn ogystal, rydym wedi darparu safbwyntiau polisi manylach drwy bapurau gwyn a dogfennau amrywiol a restrir yn Atodiad A.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi chwe phwynt allweddol yn gyson sy'n ganolog i fuddiannau Cymru yn y dyfodol:

- Y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol
- Mudo
- Cyllid a buddsoddi
- Materion cyfansoddiadol
- Mesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol
- Trefniadau pontio

Bydd angen rhoi sylw i'r holl bwyntiau hyn er mwyn sicrhau na fydd gwead economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn cael ei erydu o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Mae'r papur hwn yn ymdrin â'r Datganiad Gwleidyddol o safbwynt Llywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth y DU fandad i seilio'r negodiadau ar y Datganiad Gwleidyddol fel y mae ond credwn hefyd fod rhaid i gytundeb â'r UE yn y dyfodol adlewyrchu a diogelu buddiannau Cymru a'r DU gyfan.

Er bod cyfle o hyd i siapio sawl math o berthynas â'r UE yn y dyfodol yn seiliedig ar y Datganiad Gwleidyddol presennol, rydym yn cymhell Llywodraeth y DU i gydnabod cryfder y dadleuon a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Credwn y bydd y dull a amlinellir gennym yn helpu i ddiogelu ffyniant Cymru a'r DU.

Rydym yn cydnabod bod y Datganiad Gwleidyddol yn ddatganiad lefel uchel o uchelgais ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. Bydd angen mynd i'r afael â materion manylach yn y misoedd nesaf o negodi. Byddwn yn amlinellu safbwyntiau negodi manwl Llywodraeth Cymru wrth i'r trafodaethau hyn rhwng y DU a'r UE fynd rhagddynt.

# Rhan I: Darpariaethau cychwynnol

## Sail Cydweithredu

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r gwerthoedd a'r hawliau craidd a nodir ym mharagraffau 6 a 7 o'r Datganiad Gwleidyddol. Mae'r DU fel rhan o'r UE wedi datblygu gwerthoedd ar y cyd ynglŷn â hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol, egwyddorion democrataidd, rheolaeth y gyfraith a chefnogaeth i atal twf arfau niwclear. Croesawn yr ymrwymiad y bydd ein perthynas yn y dyfodol wedi'i seilio ar y gwerthoedd ar y cyd hyn. Nodwn ymhellach fod Cymru, a'r DU gyfan, yn genedl Ewropeaidd a bod hyn yn fater o werthoedd, buddiannau economaidd a theulu a chyfeillgarwch gymaint ag y mae'n fater o ddaeryddiaeth.

## Meysydd o Fudd Cyffredin

Mae paragraff 11 yn amlinellu sbectrwm eang ar gyfer cyfranogiad posibl y DU yn rhaglenni a mentrau'r UE gan gydnabod yr angen am gyfraniad ariannol teg a phriodol gan y DU. Mae'r testun yn nodi meysydd penodol megis gwyddoniaeth ac arloesi, ieuencid, diwylliant ac addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio yn gyson bod angen i fynediad barhau at raglenni'r UE sydd wedi dod â buddion amlwg i Gymru, megis Horizon 2020, Erasmus+ ac Ewrop Greadigol, a bod hynny'n flaenoriaeth.

Mae'r cyllid o raglenni'r UE o bwys enfawr i Gymru, gan ysgogi twf economaidd a swyddi. Mae'r cyllid hwn hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddenu adnoddau ychwanegol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat. Yn ystod ymgyrch y refferendwm rhoddwyd sicrwydd i bleidleiswyr Cymru na fyddai Cymru ar ei cholled yn sgil ymadael â'r UE. Rhaid gwireddu'r addewid hwn.

Dylai Llywodraeth y DU fod yn uchelgeisiol, a phwyso am drefniadau unigryw â'r DU sy'n caniatáu i'r DU gyfranogi yn holl raglenni'r UE os yw'n dewis gwneud hynny ac nid yn gyfyngedig i'r pynciau hynny sydd yn y Datganiad Gwleidyddol. Rhaid i Lywodraeth y DU gydnabod y manteision y mae'r buddsoddiad a'r cydweithio yn sgil rhaglenni'r UE wedi'u hwyluso. Nid yw asesiad cul o gostau a buddion ariannol yn adlewyrchu'r gwerth y mae'r cydweithredu hwnnw yn ei roi i'r DU a'n partneriaid Ewropeaidd.

Dylai'r berthynas â'r UE yn y dyfodol gydnabod yn benodol y gallai'r Gweinyddiaethau Datganoledig fod yn awyddus i gyfranogi yn rhaglenni'r UE (y rhai presennol a/neu rai yn y dyfodol) yn uniongyrchol, hyd yn oed pan fo rhan o'r DU neu'r DU gyfan yn dewis peidio â gwneud hynny. Pan fo'r cyllid i gyfranogi mewn rhaglenni o'r fath wedi'i ddal yn ganolog yn flaenorol, rhaid inni gael ein cyfran ni o'r adnoddau hynny drwy ddyraniad ychwanegol at grant bloc Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, ar gyfer y rhaglenni hynny lle nad yw'n bosibl parhau i gyfranogi ynddynt, rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn lle cyllid yr UE a fyddai fel arall wedi dod i Gymru. Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gamau gan Lywodraeth y DU a fyddai'n ceisio osgoi'r setliad datganoli a chipio penderfyniadau a chyllid sydd wedi bod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ers bron i 20 mlynedd.

Croesawn y testun sy'n dynodi bwriad y DU i ymchwilio i opsiynau ar gyfer perthynas â Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) yn y dyfodol. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o bartneriaeth â'r EIB ac mae'r Banc wedi buddsoddi'n sylweddol yng Nghymru. Yn ein Papur Gwyn gwreiddiol ar Brexit, Diogelu Dyfodol Cymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddatl gref dros bartneriaeth barhaus â'r EIB ac ni welwn reswm pam na ddylai Llywodraeth y DU arddel yr uchelgais honno hefyd.

Mae Cymru hefyd yn rhannu budd mewn cynnal y berthynas gref a chynhyrchiol a'r gwaith ar y cyd y mae rhaglen INTERREG Iwerddon-Cymru yn eu cynnig. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfranogi yn Rhaglen Iwerddon-Cymru, sy'n elfen o INTERREG sy'n werth £100m dros oes y rhaglen (2014-20). Caiff y cyllid hwn ei fuddsoddi mewn prosiectau sydd o fudd i'r ddwy ochr ar draws ffin forol Iwerddon-Cymru gan greu buddion economaidd amlwg.

Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau y bydd gweithgarwch systematig rhaglenni ar draws Môr Iwerddon yn bwysicach pan fydd y DU y tu allan i'r UE, nid yn llai pwysig. Bydd yr elfen Dwyrain-Gorllewin hon yn ategu'r elfen Gogledd-De o raglen PEACE. Bydd parhau â rhaglen Iwerddon-Cymru yn creu cyfleoedd i gysylltiadau busnes ddyfnhau ac ehangu mewn cyd-destun economaidd newydd ac yn helpu i ddatblygu ffyniant yng Nghymru ac yn Iwerddon fel ei gilydd.

Er mwyn i Gymru gyfranogi, bydd angen i Lywodraeth y DU gytuno i fynediad at yr elfen hon o INTERREG fel rhan o'i darpar gytundeb â'r UE, a galwn arni i wneud hynny.

Er eu bod y tu hwnt i gwmpas y negodiadau â'r UE, mae Cymru hefyd yn elwa ar fuddsoddiad sylweddol gan yr UE ar ffurf Cronfeydd Strwythurol yr UE a thaliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r hyn a ddaw yn lle'r cyllid hwn bellach yn faterion domestig i'r DU ac mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir bod rhaid cadw at yr addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm na fyddai Cymru "geiniog ar ei cholled". Yn ogystal, ni all Llywodraeth y DU ddefnyddio'r ffrydiau cyllido newydd i gymryd pwerau yn ôl, pwerau y mae Llywodraeth Cymru yn eu harfer ers 20 mlynedd gan arwain datblygiad a gweithrediad rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru.



## Rhan II: Partneriaeth Economaidd

### Amcanion ac Egwyddorion

Mae'r dystiolaeth yn glir mai'r pellaf y mae'r DU yn symud oddi wrth yr integreiddio economaidd y mae'r Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yn ei ddarparu, y mwyaf fydd y niwed economaidd. Rydym yn parhau i gredu y gallai perthynas â'r UE yn y dyfodol sydd wedi'i seilio ar fodel Cytundeb Masnach Rydd arfaethedig Llywodraeth y DU greu niwed enfawr i Gymru. Mae'r UE wedi'i gwneud yn glir y bydd mynediad at farchnadoedd yr UE yn lleihau os nad yw'r DU yn ymrwymo i chwarae teg er mwyn sicrhau cystadleuaeth agored a theg. Mae Llywodraeth Cymru yn glir felly bod rhaid i unrhyw gytundeb masnach rydd â'r UE yn y dyfodol flaenoriaethu mynediad at farchnadoedd yr UE er mwyn lleihau rhwystrau masnach gan sicrhau bod masnach mor esmwyth â phosib.

Mae'r gwaith dadansoddi diweddaraf, sydd wedi'i grynhoi yn adroddiad Prif Economegydd Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad B), yn dangos y bydd economi'r DU yn ei chyfanrwydd yn dioddef effaith negyddol o dan unrhyw senario lle caiff rhwystrau masnach sy'n dariffau a rhwystrau masnach heblaw am dariffau o fewn yr UE eu cyflwyno. Po fwyaf yw'r rhwystrau, y mwyaf fydd yr effaith.

Yng Nghymru, mae 60% o'r holl nwyddau sy'n cael eu hallforio'n rhyngwladol o Gymru yn mynd i'r UE, o'i gymharu ag ychydig o dan 50% ar gyfer y DU gyfan. Dengys hyn y ddibyniaeth uwch sydd gan Gymru ar fasnach â'r UE. O ganlyniad, bydd Cymru yn dioddef yn fwy os caiff rhwystrau masnach ychwanegol eu cyflwyno. Mae'r gwaith dadansoddi hefyd yn dangos y bydd llawer o sectorau yng Nghymru sy'n ychwanegu gwerth uchel (peirianeg awyrofod, modur a thrydanol) yn agored i risgiau sylweddol os oes rhwystrau ychwanegol i fasnach a llai o fynediad at ymchwil ac arloesedd yr UE.

Er y croesawir yr ymrwymiad i sicrhau na cheir unrhyw dariffau, ffioedd na chyfyngiadau meintiol, mae rhwystrau heblaw am dariffau yn peri pryder arbennig mewn llawer o sectorau sy'n dibynnu ar drefniadau masnachu mewn union bryd â'r UE.

Wrth i Lywodraeth y DU ddatblygu polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU rhaid blaenoriaethu marchnad yr UE. Does dim tystiolaeth gredadwy sy'n awgrymu y bydd y gallu i negodi'n annibynnol am gytundebau masnach yn gwneud iawn am y fasnach a gollir yn Ewrop neu o gytundebau masnach rydd â gwledydd eraill yr ydym yn cael atynt drwy'r Undeb Tollau. Bydd cytundebau masnach rydd yn gymhleth ac yn anodd eu negodi a bydd grym negodi annibynnol y DU yn anochel yn llai o lawer na grym negodi'r UE. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi asesiad economaidd wedi'i ddiweddarau ar gyfer y cytundeb presennol.

Ond mae ei dadansoddiad blaenorol o gytundeb Theresa May yn awgrymu y bydd y buddion economaidd a geir drwy gytundebau masnach newydd oddeutu +0.2% o gynnyrch domestig gros. Ar y llaw arall, bydd perthynas fwy llac â'r UE ar sail trefniadau cytundeb masnach rydd yn arwain at golled economaidd sylweddol (-6.7% o gynnyrch domestig gros) o'i gymharu â mynediad llawn at farchnad sengl yr UE.

Os cytundeb masnach rydd fydd sail perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol, rhaid i'r DU geisio'r cydweddiad agosaf posibl â'r UE. Po agosaf y gall y cytundeb hwn efelychu'r trefniadau masnachu presennol, y lleiaf fydd yr effeithiau economaidd negyddol. Mae'r dystiolaeth yn cefnogi blaenoriaethu mynediad at yr UE a sicrhau cyn lleied â phosib o rwystrau masnach sy'n dariffau a rhwystrau masnach heblaw am dariffau.

### Nwyddau

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad y dylai'r bartneriaeth economaidd sicrhau na cheir unrhyw dariffau, ffioedd na chyfyngiadau meintiol. Ond, credwn fod angen i'r cytundeb masnach rydd fynd ymhellach er mwyn sicrhau i'r graddau mwyaf posibl nad oes unrhyw rwystrau nad ydynt yn dariffau yn bodoli i fasnachu. Yma, rydym yn herio dull gweithredu Llywodraeth y DU o geisio symud oddi wrth reolau a rheoliadau'r UE, gan fod hyn yn peryglu cael mynediad dirwysr at farchnadoedd yr UE. Mae darllen y testun ym mharagraff 23 yn ofalus ynghylch agweddau rheoleiddiol yn cadarnhau hyn. Mae'r testun yn

nodu: '... the Parties will put in place provisions to promote regulatory approaches that are transparent, efficient, promote avoidance of unnecessary barriers to trade in goods and are compatible to the extent possible' (ein pwyslais).

Yr unig beth a fyddai'n golygu **NAD** yw hyn yn bosibl yw pe bai'r DU yn creu gwahaniaeth. Adeg dechrau'r negodiadau, ceir cydweddiad o 100%, ac ni fydd hynny'n newid oni bai bod Llywodraeth y DU yn mynd ar drywydd hynny fel mater o bolisi. Ond i ba ddiben?

Eto, mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn glir bod y manteision sy'n gysylltiedig â hyblygrwydd rheoleiddiol (+0.1% o gynnyrch domestig gros) lawer yn llai na'r costau economaidd a fyddai'n gysylltiedig â gwanhau ein mynediad at farchnad sengl yr UE (-6.7% o gynnyrch domestig gros) mewn perthynas economaidd yn seiliedig ar gytundeb masnach rydd.

Mae'r manteision o gynnal mynediad dirwysr at farchnadoedd yr UE lawer yn fwy nag unrhyw fanteision canfyddiadol sydd ynghlwm wrth symud oddi wrth reoliadau'r UE. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod ymrwymo i sicrhau cystadleuaeth deg ac agored a chydweddiad â'r rheoliadau hynny sy'n sicrhau bod nwyddau yn gallu cael eu masnachu heb wiriadau rheoleiddiol, yn elfennau hanfodol o unrhyw gytundeb masnach rydd â'r UE, a rhaid rhoi blaenoriaeth i hynny.

Mewn nifer o feysydd, byddai'n amhosibl neu'n aneffeithiol iawn symud oddi wrth drefniadau sefydledig sy'n cael eu parchu. Mae angen i Lywodraeth y DU fynd ymhellach na 'pharhau i gydweithredu' ag asiantaethau megis yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd ac Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai Llywodraeth y DU negodi er mwyn parhau i fod yn aelod o'r asiantaethau hyn fel rhan o gytundeb cynhwysfawr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n gryf fesurau i osgoi gorfodi ffin ar y tir yn Iwerddon, ac rydym yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar gadw heddwch. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r goblygiadau posibl ar gyfer economi Cymru a allai godi yn sgil y Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon. Mae'n anochel y bydd y trefniadau'n cael effaith ar fasnachu rhwng Cymru ac ynys Iwerddon. Mae gwaith ymchwil gan Arsyllfa Polisi Masnach y DU yn dangos bod risgiau sylweddol i Gymru o ganlyniad i'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon, wrth i Lywodraeth y DU hefyd geisio sicrhau hyblygrwydd i bennu rheoliadau domestig y DU ar safon is na'r rheini a bennir gan yr UE. Mae Blwch 2 yn rhoi crynodeb o'r prif oblygiadau ar gyfer Cymru yn sgil y trefniadau protocol, fel y'u pennir yn y Cytundeb Ymadael a nodir yn adroddiad Arsyllfa Polisi Masnach y DU.

# Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon: Goblygiadau i Gymru

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Arsyllfa Polisi Masnach y DU i nodi'r prif broblemau a allai godi o ganlyniad i fabwysiadu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon fel y nodir yn y Cytundeb Ymadael.

Mae'r Arsyllfa yn credu mai dyma fyddai'r prif oblygiadau i Gymru yn sgil y protocol:

- Byddai cynhyrchwyr ym Mhrydain Fawr (gan gynnwys cynhyrchwyr o Gymru) yn debygol o golli eu cyfran yn y farchnad yng Ngogledd Iwerddon, gan y bydd nwyddau a anfonir o Brydain i Ogledd Iwerddon bellach yn wynebu gwiriadau newydd, a thollau o bosibl, a gwiriadau rheoleiddiol/gweinyddol eraill, tra bydd masnachu rhwng Gogledd Iwerddon a'r UE (yn arbennig Gweriniaeth Iwerddon) yn parhau i fod yn ddirwystr.
- Os bydd Prydain Fawr yn llacio ei rheoliadau mewn perthynas â rheoliadau'r UE, mae'n bosibl y bydd cynhyrchwyr Gogledd Iwerddon yn gweithio i gostau uwch na chwmnïau Prydain, gan y bydd dal angen i gynhyrchwyr Gogledd Iwerddon gynhyrchu i safonau'r UE. Mae'n bosibl felly y bydd cwmnïau Gogledd Iwerddon yn ei chael yn anodd cystadlu yn y farchnad Brydeinig.
- Po fwyaf o rwystrau a geir i fasnachu rhwng y DU a'r UE (yn enwedig Gweriniaeth Iwerddon), a pho leiaf yw'r gwiriadau ar y ffin rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon, po fwyaf o ysgogiad fydd i newid y llwybrau masnachu o Weriniaeth Iwerddon a Phrydain, i Ogledd Iwerddon a Phrydain. Mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar faint o nwyddau sy'n cael eu cludo drwy Gymru i Iwerddon. Mae'n bosibl y bydd yr effaith fwyaf ar lwythi ar gyfer Gogledd Iwerddon, sy'n cael eu hanfon o Gymru drwy Weriniaeth Iwerddon ar hyn o bryd.
- Heb amheuaeth, bydd ymdrin ag unrhyw wiriadau newydd sy'n ofynnol wrth fasnachu â'r UE yn gofyn am fwy o seilwaith ffiniau ym mhorthladdoedd Cymru, megis Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun. Bydd oedi yn sgil gwiriadau wrth ffiniau yn arbennig o broblematig ar gyfer cynhyrchion bwyd darfodus, sy'n cyfrif am gyfran gymharol fawr o'r nwyddau sy'n cael eu cludo rhwng Caergybi a Dulyn.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yma.

## **Gwasanaethau a Buddsoddi; Gwasanaethau Ariannol; Digidol; Symudiad Cyfalaf; Eiddo Deallusol**

Er ein bod yn derbyn nad yw'r Farchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau wedi'i datblygu gymaint â'r farchnad ar gyfer nwyddau, mae'r dystiolaeth yn glir y byddai symud oddi wrth y trefniadau presennol yn niweidio sawl rhan o economi'r sector gwasanaethau. Mae gan Gymru nifer o sectorau lle gallai rhwystrau ychwanegol i fasnachu fod yn ofnadwy o niweidiol. Y maes allforio mwyaf o ran y sector gwasanaethau yng Nghymru yw gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu. Yn aml, daw gwerth economaidd gwirioneddol nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu sy'n cael eu masnachu gyda'r UE i sectorau megis awyrofod ac uwch-beirianeg o'r contractau gwasanaethau sylweddol a werthir ochr yn ochr â'r nwyddau. Mewn nifer o sectorau, nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng cyflenwi nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r sector gwasanaethau yn cyfrif am dros dri chwarter o economi'r DU, felly rhaid i'n perthynas â'r UE yn y dyfodol sicrhau bod allforion y sector gwasanaethau yn gallu parhau i gael mynediad at farchnadoedd yr UE heb drethi costus a gofynion adrodd. Rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod gwasanaethau sy'n gysylltiedig â nwyddau yn gallu parhau i gael eu masnachu heb rwystrau a rhaid i bobl barhau i allu symud rhwng y DU a'r UE er mwyn darparu gwasanaethau defnyddwyr a busnes heb rwystrau newydd.

Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pobl yn gallu symud ar draws ffiniau er mwyn cefnogi anghenion yr economi a gwasanaethau cyhoeddus. Mae cael mynediad at ddata yn sail i bob gweithgarwch o fewn y sector gwasanaethau, ac yma, rydym yn annog Llywodraeth y DU i roi blaenoriaeth i'r angen am gael cytundebau digonolrwydd data a sicrhau bod data yn gallu symud yn hawdd rhwng y DU a'r UE, fel sy'n wir ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn glir na ddylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gael eu peryglu gan Lywodraeth y DU sy'n mynd ar drywydd cytundebau masnachu newydd, yn arbennig gydag Unol Daleithiau America. Rhaid i'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill aros yn gadarn o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r GIG beidio â bod yn rhan o unrhyw gytundeb masnachu yn y dyfodol â'r UE, ac ni ddylai chwaith fod yn rhan o unrhyw gytundeb masnach rydd gyda gwledydd eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i amddiffyn dyfodol y GIG yng Nghymru.

Gan gydnabod y gwerth y mae Dangosyddion Daeryddol wedi'i roi i sectorau pwysig yng Nghymru, gan gynnwys Cig Oen a Chig Eidion o Gymru, rydym yn cytuno â'r darpariaethau (paragraff 43) ynghylch yr angen i amddiffyn eu dangosyddion daeryddol mewn modd priodol.

## **Caffael Cyhoeddus**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull goddefol ar y cyfan o gaffael cyhoeddus yn unol ag egwyddorion Sefydliad Masnach y Byd, yn amodol ar y datganiad uchod am y GIG. Credwn fod cyd-destun priodol ar gyfer caffael cyhoeddus sy'n cydnabod y manteision cymdeithasol a chymunedol.

## **Symudedd**

Er ei fod y tu hwnt i gwmpas y Datganiad Gwleidyddol, mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â'r ffordd y mae Llywodraeth y DU yn edrych ar fewnfudo, a'r datganiad llym na fydd y rhyddid i symud yn weithredol rhwng y DU a'r UE bellach.

Yn unol â'n safbwynt y dylem sicrhau cyn lleied o rwystrau â phosibl er mwyn sicrhau'r berthynas economaidd agosaf bosibl â'r UE, a phwysigrwydd yr UE o ran ein perthynas fasnachu, rydym yn parhau i gredu bod achos cryf dros gael dull gweithredu penodol, ar sail gyfatebol, i alluogi dinasyddion o wledydd yr UE i fudo i'r DU. Rydym yn cefnogi system o symud yn rhydd, mewn perthynas â gwaith, fel sail ar gyfer cytundeb yn y dyfodol. Rydym yn credu y dylai dinasyddion Cymru/y DU gael yr hawl i symud yn rhydd o fewn yr UE, os oes ganddynt swydd i fynd iddi neu os ydynt yn gallu cael swydd o fewn cyfnod byr ar ôl cyrraedd (6 mis). Credwn y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd gael manteisio ar yr un hawliau, yn gysylltiedig â gwaith, yng Nghymru/y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y polisi hwn wedi arwain at fanteision i bawb, ac rydym yn parchu ac yn dathlu'r cyfraniad y mae dinasyddion yr UE wedi'i wneud yng Nghymru.

Mae'n siomedig dros ben felly fod Llywodraeth y DU wedi cynnig cyflwyno dull gweithredu o ddethol ar sail sgiliau a chyflog mewn perthynas â mewnfudo. Credwn y bydd hyn yn gwaethygu effeithiau cymdeithasol ac economaidd negyddol diangen yng Nghymru ar ôl Brexit.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gofyniad am fframwaith ar symudedd, dylai hwn fod yn gysylltiedig â dull gweithredu ar fewnfudo sy'n cefnogi anghenion yr economi a gwasanaethau cyhoeddus. Gyda'r polisi domestig cywir yn ei le ar gyfer mewnfudo, mae llawer llai o angen cymryd rhan mewn trafodaethau manwl ar symudedd.

### **Cludiant**

Mae er budd cyffredinol i'r DU a'r UE gytuno ar y gydlyniaeth agosaf bosibl o ran trefniadau cludiant mewn perthynas ag awyrofod, ffyrdd, rheilffyrdd a'r môr, ar gyfer cludo nwyddau a theithiau personol. Bydd yn fanteisiol i Gymru a'r DU gytuno ar gydweithredu mewn modd sydd mor agos â phosibl i hwnnw sy'n weithredol o fewn yr UE.

### **Ynni**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y dull gweithredu a awgrymir mewn perthynas ag ynni a nwy, a chydweithredu yn y sector niwclear sifil. At hynny, rydym yn cytuno ar y cydweithredu agos sy'n cysylltu'r system fasnachu o ran allyriadau

nwyon tŷ gwydr y DU â system fasnachu Allyriadau yr UE. Rydym yn cytuno y dylai'r DU gadw o leiaf yn gyson â safon yr UE.

### **Cyfleoedd Pysgota**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen cadarnhau cytundeb pysgodfeydd newydd erbyn 1 Gorffennaf 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r negodiadau ar bysgodfeydd am dros ddau ddegawd, ac mae'n hanfodol ein bod yn cael dull o ymdrin â negodiadau sy'n gyson ar draws y DU.

Mae cael mynediad dirwystr at farchnad yr UE hefyd yn hollbwysig i ddiwydiannau bwyd môr Cymru, yn arbennig allforion pysgod cregyn byw, lle y gallai unrhyw oedi fod yn angheuol i'r cregyn gleision a'r wystrys sy'n cael eu hallforio, ac i'n busnesau. Mae angen amgylchedd masnachu nad yw'n rhoi pysgodfeydd a busnesau cynhyrchu dyframaethu yng Nghymru o dan anfantais o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

### **Cydweithredu**

#### **Byd-eang**

Rydym yn cytuno â'r testun ynghylch cydweithredu byd-eang ar y chwe maes a nodwyd (y newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy, llygredd trawsffiniol, iechyd y cyhoedd ac amddiffyn defnyddwyr, sefydlogrwydd ariannol, diffyndollaeth masnach.

#### **Cystadleuaeth Deg ac Agored**

Mae Paragraff 77 o'r Datganiad Gwleidyddol yn dangos yn fwy graffig nag unrhyw un arall y dryswch a'r camliwio sydd wrth wraidd safbwynt Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU yn

pwysleisio'n gyson ei dymuniad am gymhwysedd annibynnol ar bolisïau; er hynny mae'n cydnabod, yn y testun hwn, mor bwysig yw cael set eang o safonau cyffredin sy'n cwmpasu cymorth gwladwriaethol, safonau cymdeithasol a chyflogaeth, y newid yn yr hinsawdd, a materion perthnasol yn ymwneud â threthi.

Mae ehangder y cytundeb sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi chwarae teg i fasnach – y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi mewn egwyddor – mor sylweddol fel ei fod yn gwneud angen Llywodraeth y DU am amrywiant amlwg yn ymarferol amherthnasol. Gellir osgoi'r ystumio hwn yn syml iawn drwy fabwysiadu polisi Llywodraeth Cymru o gydweddu â rheolau a rheoliadau'r UE sydd eu hangen i sicrhau bod masnachu'n digwydd yn ddirwystr rhwng y DU a'r UE.

## Rhan III: Partneriaeth Ddiogelwch

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cydweithrediad llawn a chynhwysfawr â'r UE ar y sbectrw m ehangach o faterion yn ymwneud â diogelwch.

Yma, rydym yn galw ar i Lywodraeth y DU negodi cyfranogiad yn y dulliau a'r trefniadau cydweithredu sy'n cadw ein dinasyddion yn ddiogel, ac yn cefnogi ein hasiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith. I gefnogi

hyn, rydym yn galw ar i'r UE edrych y tu hwnt i gynseiliau trydydd gwledydd ac i gydnabod y gwerth y mae'r DU yn ei gynnig o ran cydweithredu ar ddiogelwch ar draws Ewrop.

## Rhan IV: Trefniadau sefydliadol a threfniadau llorweddol eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhaid i'n perthynas â'r UE yn y dyfodol fod yn seiliedig ar fframwaith sefydliadol cryf.

Mae angen i'r fframwaith hwn adlewyrchu pa mor agos yw'r cydberthnasau a negodwyd, a chefnogi'r gwaith o roi'r cytundebau ar waith. Rhaid i'r fframwaith hefyd gael yr oruchwyliaeth briodol a phroses i reoli unrhyw anghydfodau.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad i gael Cyd-bwyllgor ar gyfer rheoli'r trefniadau gweithredu. Gan fod y broses o weithredu nifer o agweddau ar ein perthynas yn y dyfodol o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol ein bod yn cael ein cynrychioli, ac yn cymryd rhan lawn yn y ffordd y caiff y Cyd-bwyllgor ei lunio a'i redeg.

Ni ddylai llinellau coch annoeth ar rôl sefydliadau'r UE a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd wanhau'r gwaith o weithredu perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol, na dylanwadu ar siâp a natur y berthynas honno.

## Rhan V: Proses Arfaethedig

Y cam cyntaf i unrhyw Lywodraeth gyfrifol yn y DU yw rhoi'r gorau i'w dull hollol afrealistig o ymdrin â negodiadau, a chydabod y gwirionedd nad oes modd cynnal negodiadau priodol ar gynnal perthynas wirioneddol uchelgeisiol â'r UE yn y dyfodol o dan fygythiad dyddiad terfyn pendant, sef mis Rhagfyr 2020. Nid ydym yn credu bod modd sicrhau'r cytundeb gorau mewn ychydig fisoedd yn unig. Rhaid i Lywodraeth y DU fod yn agored i'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod pontio y tu hwnt i fis Rhagfyr 2020.

Yn ystod y cyfnod pontio, rhaid canolbwyntio ar negodi'r berthynas agos â'r UE yn y dyfodol, fel y nodir uchod. Rhaid i Lywodraeth y DU roi blaenoriaeth i berthynas economaidd y DU â'r UE, fel ein partner masnachu agosaf a phwysicaf. Os yw hynny'n golygu gohirio negodiadau â'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill sy'n cael blaenoriaeth, bydded felly.

Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru, a llywodraethau datganoledig eraill, yn rhan o'r negodiadau i lywio dyfodol sy'n gweithio i bob rhan o'r DU. Hyd yma, mae'r llywodraethau datganoledig wedi cael eu trin fel ymgynghorai yn y broses o bennu safbwynt y DU. Nid yw'r broses o rannu gwybodaeth ac o ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn ddigonol, o bell ffordd, er mwyn sicrhau'r trefniadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod safbwyntiau'r DU yn adlewyrchiad gwirioneddol o safbwyntiau pob rhan o'r Undeb.

Mewn nifer o feysydd, mae gweithredu'r berthynas â'r UE yn y dyfodol yn gyfrifoldeb sy'n perthyn i'r llywodraethau datganoledig, ac mae dyfodol yr Undeb yn ei chyfanrwydd yn dibynnu ar gydweithio i sicrhau cyd-gytundeb ar safbwyntiau negodi'r DU. Ni ellir disgwyl inni gydweithredu ar y rhwymedigaethau a roddir ar waith mewn meysydd datganoledig, os nad ydym wedi cael ein cynnwys yn llawn wrth bennu'r rhwymedigaethau hynny. Rhaid i Lywodraeth y DU amlinellu proses glir ar gyfer cytuno ar safbwyntiau'r DU gyfan. Bydd hyn yn gofyn am waith ar y cyd rhwng llywodraethau'r DU ar lefel swyddogion gyda phroses glir i ddod i gytundeb ar lefel weinidogol a phroses i ddatrys anghydfodau os oes angen. Rhaid i hyn gychwyn ar ddechrau'r broses wrth gytuno ar y mandadau negodi, a pharhau drwy gydol y negodiadau hyd at eu diwedd.

Rydym wedi bod yn glir na ddylai'r DU, fel arfer, fwrw ymlaen â safbwyntiau'r DU mewn meysydd sydd o fewn ein cymhwysedd ni heb i ni gytuno, a rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i weithio ar y sail honno.

Mae'r UE yn hollol ymwybodol o'r rôl y mae'r llywodraethau datganoledig yn ei chwarae wrth feithrin y berthynas yn y dyfodol. Trwy fethu â gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig, bydd Llywodraeth y DU yn tanseilio safbwynt y DU gyda'r UE.

Ar y llaw arall bydd cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn llawn yn y broses negodi yn helpu i lunio cytundeb yn seiliedig ar ymrwymiad cadarn a rennir ar draws pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Bydd cydweithio ar negodiadau hefyd yn sicrhau bod polisi domestig y DU yn cael ei ddatblygu a'i weithredu'n effeithiol y tu allan i'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymdrin ag ymadawiad y DU â'r UE, gan mai dyma'r ffordd orau o ddiogelu buddiannau Cymru. Byddwn yn parhau i fanteisio ar bob cyfle sydd ar gael i ddylanwadu ar y negodiadau er mwyn ceisio'r canlyniad gorau posibl o fewn y cyd-destun newydd a nodir yn y Datganiad Gwleidyddol, ac yn seiliedig ar ganlyniad yr Etholiad Cyffredinol. Rydym yn cydnabod bod angen gweithio gyda'n gilydd ar draws llywodraethau'r DU, a byddwn yn parhau i fod yn bartner adeiladol yn y broses hon.

# Atodiad A

## Cyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar Ymadael â'r UE

Diogelu Dyfodol Cymru

---

Brexit a Datganoli

---

Brexit a thegwch o ran symudiad pobl

---

Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

---

Polisi masnach: materion Cymru

---

Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit

---

Dadansoddiad economaidd o gynigion llywodraeth y DU ar gyfer ymadael â'r UE

---

Cymru: Diogelu ymchwil ac arloesedd ar ôl ymadael â'r UE

---

Dyfodol mwy disglair i Gymru: Y rhesymau dros aros yn yr UE

---



# Atodiad B

## Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Trefniadau Masnachu â'r UE ar ôl Brexit: Goblygiadau Economaidd

### Cyd-destun a Diben

Mae adroddiadau blaenorol wedi nodi'r consensws sefydledig ymhlith economegwyr academaidd a phroffesiynol prif ffrwd ar oblygiadau economaidd Brexit<sup>1</sup>.

Y consensws hwn yw y bydd yr effeithiau tymor byr a thymor hir yn negyddol i'r DU yn gyfan a'r gwledydd a'r rhanbarthau sy'n rhan ohoni.

Bydd maint y niwed economaidd dros y tymor hwy yn gymesur at ei gilydd â graddfa'r rhwystrau ychwanegol sy'n cael eu creu i fasnachu â'r UE. Mae tariffau, cwotâu a rhwystrau di-dariff (eraill) i gyd yn bwysig, gyda rhywfaint o ymchwil yn awgrymu y gall rhwystrau di-dariff sy'n deillio o wahaniaethau mewn rheoleiddio fod yn fwy niweidiol i fasnach na thariffau.

Dros y tymor byrrach, caiff effeithiau andwyol eu sbarduno gan y gwaith o rag-weld beth fydd y canlyniadau tymor hwy a chan yr aflonyddwch a gaiff ei greu gan y proses bontio.

Ceir consensws hefyd y byddai manteision cytundebau masnach newydd, gan gynnwys ag UDA, yn llawer llai na'r colledion a fyddai'n deillio o rwystrau ychwanegol i fasnachu â'r UE. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gwledydd yn masnachu'n llawer mwy dwys â phartneriaid sy'n agos atynt yn ddaeryddol.

Mae'r ffordd y mae cyfradd gyfnewid sterling wedi ymateb i'r "newyddion" hyn am Brexit yn nodi bod cyfranogwyr â'r farchnad yn rhannu'r dadansoddiad hwn.

Mae'r casgliadau eang sydd newydd gael eu crynhoi'n dal yn ddilys. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys canfyddiadau dadansoddiadau mwy diweddar, sy'n gyson â'r consensws sydd eisoes yn bodoli, ac yn ymhelaethu ar y goblygiadau ar gyfer asesu effeithiau economaidd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ei pherthynas fasnachu â'r UE yn y dyfodol, i'r graddau y mae'r berthynas hon yn hysbys ar hyn o bryd

### Bil y Cytundeb Ymadael a Rhagolygon Tymor Byr

Gan ragdybio y bydd Bil y Cytundeb Ymadael yn cwblhau ei hynt trwy Senedd y DU yn unol â'r amserlen, mae ymadawiad sydyn â'r UE heb gyfnod pontio ar ddiwedd Ionawr yn ymddangos yn annhebygol. Er hynny, os na chytunir ar gysylltiadau masnachu â'r UE yn ystod 2020, mae'n bosibl o hyd y bydd ymadawiad anhrefnus, wedi'i ddilyn gan fasnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd, ar ddiwedd y cyfnod pontio yn Rhagfyr 2020.

Mae dadansoddiad gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), Banc Lloegr, ac eraill, wedi nodi bod economi'r DU bellach o leiaf dau y cant yn llai, yn ôl pob tebyg, nag y disgwylid cyn canlyniad y refferendwm. Mae'r rhan fwyaf o'r diffyg hwn i'w phriodoli i lefelau gwan o fuddsoddiad mewn busnes. Prin fu'r twf yn y maes hwn yn y DU ers y refferendwm, o'i gymharu â'r sefyllfa ledled yr UE a gwledydd cymharol eraill. Mae Banc Lloegr a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) yn amcangyfrif bod ansicrwydd ynghylch Brexit wedi bod yn gysylltiedig â gostyngiad mewn buddsoddiad mewn busnes, gyda lefel 2019 tua 15 y cant yn is nag y byddai wedi bod fel arall.

Mae buddsoddiad gwan mewn busnes wedi bod yn ffactor allweddol ym mherfformiad tala economi'r DU o safbwynt y twf mewn cynhyrchiant a chyflogau gwirioneddol (yr olaf yn cael ei yrru gan y cyntaf dros y tymor hwy).

Yn ogystal, ers 2016, mae pŵer gwario defnyddwyr wedi cael ei erydu gan effeithiau dibrisio sterling ar brisiau. Mae dadansoddiad gan y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd wedi dangos mai ar bobl ag incwm isel a thrwy hynny ar leoedd â chrynodeiadau uwch o bobl o'r fath, gan gynnwys Cymru, y bu'r effaith waethaf.

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/dadansoddiad-economaidd-o-gynigion-llywodraeth-y-du-ar-gyfer-ymadael-ar-ue>  
<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-dadansoddiad-diweddaraf-o-ganlyniadau-economaidd-ymadawiad-y-du-ar-undeb>

Serch hynny, mae hyder defnyddwyr a gwario wedi dal eu tir yn weddol dda yn y cyd-destun andwyol hwn, gan adlewyrchu'r amheuan ymhlith cyfran fawr o'r boblogaeth am y dystiolaeth o ganlyniadau economaidd negyddol yn sgil Brexit.

Yn gyffredinol, mae effeithiau cyfunol llai o fuddsoddiad mewn busnes a phŵer gwario is ymhlith defnyddwyr yn golygu bod gan bob person yng Nghymru incwm a oedd £450 yn is nag y byddai wedi bod fel arall.

A bwrw bod Bil y Cytundeb Ymadael yn cael ei basio yn unol â'r amserlen a bod y DU yn ymadael â'r UE ar ddiwedd Ionawr 2020 gyda'r cytundeb yn ei le, dylai fod rhywfaint llai o ansicrwydd i fusnesau a defnyddwyr. Gallai hyn arwain at rywffaint o adfywio o ran buddsoddiad mewn busnes a helpu i gynnal hyder defnyddwyr.

Er hynny, mae'n debygol y bydd yr effeithiau hynny'n fach iawn, ac fe allent gael eu gwrthbwyso i raddau helaeth hefyd gan ansicrwydd am y trefniadau masnachu yn y dyfodol a fyddai'n dilyn diwedd y cyfnod pontio. Os bydd hyn yn digwydd, gallai'r gostyngiad mewn buddsoddiad mewn busnes a grybwyllwyd gynt barhau.

Gallai ansicrwydd ychwanegol deillio o'r debygoliaeth na chytunir ar bopeth erbyn Rhagfyr 2020. Er enghraifft, dywedodd Michel Barnier yn ddiweddar: "It is unrealistic that a global negotiation can be done in 11 months, so we can't do it all."

Mae risg go iawn, o ganlyniad i ansicrwydd parhaus, y gallai rhai busnesau sydd wedi dal yn ôl ar benderfyniadau buddsoddi o bwys dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyrraedd "pwynt tyngedfennol" a phenderfynu mai israddio, neu hyd yn oed cau, yw'r ymateb rhesymegol.

Yn ôl amcangyfrif NIESR, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gallai'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â proses Brexit olygu y bydd incwm cenedlaethol y DU 2-3 y cant yn is nag y byddai wedi bod fel arall.

Os bydd y DU'n methu â gwneud cytundeb ar gysylltiadau masnachu â'r UE yn y dyfodol erbyn Rhagfyr 2020 ac yn dechrau masnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd yn 2021, byddai'r risg o ddirwasgiad yn uchel.

Beth bynnag, bydd y gwasgu ar lefelau buddsoddiad mewn busnes a welwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn gadael ei ôl o safbwynt gwendid yn nhwf cynhyrchiant nes i'r diffyg gael ei unioni.

Mae rhagolygon diweddaraf Banc Lloegr yn nodi y bydd twf dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn is nag y tybid yn flaenorol hyd yn oed os bydd dewis Llywodraeth y DU i bob golwg o blaid cytundeb Masnach Rydd gyfyngedig yn cael ei roi ar waith yn unol â'r bwriad. Roedd y rhagolygon blaenorol yn seiliedig ar gyfartaledd o ganlyniadau posibl ar gyfer y berthynas fasnachu ar ôl Brexit â'r UE ac mae'r Banc yn priodoli rhywfaint o'r gostyngiad mewn twf i'r ffaith bod effeithiau'r trefniadau arfaethedig yn waeth na'r cyfartaledd hwn.

## Cysylltiadau Masnachu yn y Dyfodol â'r UE a Rhagolygon Tymor Hwyr

Er gwaethaf cyhoeddi Bil y Cytundeb Ymadael a bodolaeth y Datganiad Gwleidyddol ynghylch Cysylltiadau Masnachu yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE, mae'r cysylltiadau hyn yn destun cryn ansicrwydd o hyd. Nid yw'r Datganiad Gwleidyddol yn rhwymol, ac mae gwir fwriadau Llywodraeth y DU yn aneglur, ac fe allent newid, wrth i wahanol gyfyngiadau a chanlyniadau ddod i'r amlwg yn ystod y cyfnod negodi.

Ymhellach, er bod consensws ynghylch natur a graddfa eang effeithiau negyddol tymor hwyr gwahanol fathau o berthynas fasnachu, fel y disgrifir uchod, mae dadansoddiad prif ffrwd wedi arwain at ystod o amcangyfrifon rhifyddol ar gyfer pob opsiwn. Mae natur modelu economaidd a'r ansicrwydd anochel yn gwneud y math hwn o fanwl gywirdeb yn anochel. Er hynny, ni ddylai hwn danseilio hyder yn y negeseuon eang, sydd wedi'u seilio ar ddamcaniaeth economaidd sydd wedi ennill ei phlwyf a chael eu cadarnhau'n empiraidd ar sail newidiadau mewn canlyniadau lle y mae cysylltiadau masnachu wedi newid mewn achosion eraill.

Dangosir amcangyfrifon diweddar dethol o o effeithiau hirdymor oddi wrth CEP a NIESR yn Nhabl 1. Cynhwysir amcangyfrifon o ddadansoddiad a wnaed o Lywodraeth flaenorol y DU at ddibenion cymharu. Mae'r ffigurau yn y tabl yn cyfleu'r effeithiau blynyddol ymhen rhyw ddeng mlynedd.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynrychioli'r ystod o amcangyfrifon a wnaed gan ddadansoddwyr prif ffrwd. Niddangosir unrhyw amcangyfrif ar gyfer y cyfuniad o aelodaeth Ardal Masnach Rydd Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Efta / EEA). Mewn termau economaidd, byddai'r cyfuniad hwn (a fyddai'n cyfuno'r rhes gyntaf ag elfennau'r ail res yn y tabl) yn arwain at effeithiau economaidd negyddol bach iawn o'i gymharu ag aros yn yr UE.

Gellir dehongli'r effeithiau a ddangosir yn y tabl fel effaith incwm gwirioneddol blyneddol dinasyddion y DU. Dros y tymor hwy, teimlir yr effeithiau hyn yn bennaf o safbwynt cyflogau gwirioneddol llai, yn hytrach na chyflogaeth is, wrth i gyflogau addasu i adlewyrchu cynhyrchiant sy'n is nag y byddai fel arall. Mae cyllid llai ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, a thrwy hynny wasanaethau cyhoeddus tlotach, hefyd yn un o ganlyniadau anochel sylfaen drethu wannach.

Dylid nodi bod y ffigurau yn Nhabl 1 yn adlewyrchu'r gwahaniaeth y disgwylir i Brexit ei wneud i ganlyniadau economaidd y DU dros gyfnod o ddeng mlynedd i bymtheng mlynedd, yn hytrach na rhagolwg o'r canlyniadau hynny eu hunain. Mae darogan economaidd o'r math olaf yn heriol iawn a phur anaml y mae wedi bod yn llwyddiannus.

**Tabl 1: Amcangyfrifon effeithiau economaidd hirdymor Brexit**

	Newid hirdymor mewn incwm y pen (y flwyddyn)		
	CEP*	Llywodraeth y DU**	NIESR***
Efta / EEA	-4.3%	-1.4	n/a
Cytundeb May	-4.8%	-2.1	-1.9%
Y cytundeb presennol / Cytundeb Masnach Rydd (FTA)	-6.4%	-4.9	-3.0%
WTO	-8.1%	-7.6	-3.7%

\* Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd. Cafwyd canlyniadau cyfatebol gan UK in a Changing Europe, gan ddefnyddio dull gweithredu modelu tebyg.

\*\* Dadansoddiad Economaidd Tymor Hir, a gyhoeddwyd Tachwedd 2018. Yn rhagdybio na fydd newid o ran ymfudiad a senario mwy realistig ar gyfer cytundeb May.

\*\*\* Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae'r effeithiau yn is na CEP a Llywodraeth y DU gan na chynhywir tystiolaeth ehangach ar effeithiau cynhyrchiant.

Mae'r amcangyfrifon yn y tabl yn cynnwys rhai effeithiau ar gynhyrchiant. Mae tystiolaeth dda bod marchnadoedd agored, cystadleuaeth ehangach a dyfnach, a masnach i gyd yn dda ar gyfer cynhyrchiant (a thrwy hynny cyflogau gwirioneddol) dros y tymor hir. Mae'n arbennig o anodd amcangyfrif graddfa'r effeithiau yn fanwl gywir ond dylid ei chynnwys am fod y

dadansoddiad yn awgrymu eu bod yn fawr. Mae'r amcangyfrifon a wnaed gan NIESR yn fwy gofalus ac fe allent fod yn danamcangyfrif.

Fel y nodwyd gynau, nid yw'n glir ar hyn o bryd ar ba fath o berthynas fasnachu y bydd Llywodraeth y DU a'r UE yn cytuno yn y pen draw. Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae'n fwriad gan Lywodraeth y DU fynd ar

drywydd cytundeb masnach rydd (FTA) a fyddai'n cael effaith ar incymau gwirioneddol o hyd at ryw 6% y flwyddyn yn y tymor hwy, fel y nodir gan y golofn yn y tabl. Mewn termau cyfoes, byddai hyn yn gyfwerth â rhyw £1,300 y pen y flwyddyn yng Nghymru.

Gyda FTA cyfyngedig â'r UE byddai Llywodraeth y DU'n rhydd i fynd ar drywydd ei chytundebau masnach rydd

eu hunain â gwledydd eraill. Mae dadansoddiad economaidd a wnaed gan Llywodraeth flaenorol y DU wedi dangos y byddai unrhyw effaith gadarnhaol ar incymau'n fach, efallai 0.2 y cant, ac na fyddai'n digolledu o bell ffordd am y colledion sy'n gysylltiedig â Brexit. Yn yr un modd, dengys y dadansoddiad y byddai manteision unrhyw newidiadau i reoliadau'r DU yn fach iawn (os ydynt yn bodoli o gwbl).

Bydd ymagwedd Llywodraeth y DU at fudo hefyd yn effeithio ar lefel incwm cenedlaethol. Mae'r amcangyfrifon yn y tabl yn tybio mai newidiadau cyfyngedig yn unig a welir yng nghyfanswm lefelau mudo. Er y byddai mudo mwy cyfyngus yn lleihau cyfanswm yr incwm cenedlaethol, byddai ei effaith ar incwm gwirioneddol y pen ar gyfer preswylwyr presennol gryn dipyn yn llai.

Bydd twf is yn arwain at sylfaen drethu, a refeiwi trethi, sy'n llai nag y byddent fel arall. Mae hyn yn golygu naill ai bod rhaid i wariant cyhoeddus fod yn is neu fod rhaid i fenthycia gan y llywodraeth fod yn uwch. Dangosir amcangyfrifon bras o'r diffyg blynyddol yn refeiwi Llywodraeth y DU, wedi'u mynegi mewn termau cyfoes yn Nhabl 2. Seilir yr amcangyfrifon hyn ar ddadansoddiad gan y sefydliadau a nodwyd, ond nid ydynt o reidrwydd yn cael eu mynegi ganddynt yn yr un termau.

**Tabl 2: Amcangyfrifon o effeithiau hirdymor Brexit ar refeiwi trethi'r DU**

	Newid hirdymor yn refeiwi trethi (y flwyddyn)		
	CEP	Llywodraeth y DU	NIESR
Efta / EEA	-£39 biliwn	-£13 biliwn	n/a
Cytundeb May	-£44 biliwn	-£19 biliwn	-£17 biliwn
Y cytundeb presennol / Cytundeb Masnach Rydd (FTA)	-£56 biliwn	-£45 biliwn	-£27 biliwn
WTO	-£74 biliwn	-£69 biliwn	-£34 biliwn

At ddiobenion enghreifftiol, yng Nghymru byddai "y gyfran o'r boblogaeth" yn achos y gostyngiad refeiwi trethi blynyddol a fyddai'n digwydd o dan gyntundeb o'r math a gynigir yn ôl amcangyfrif CEP tua £2.7 biliwn.

### Effeithiau sectorol a gofodol

Mae'r dadansoddiad uchod wedi'i wneud ar lefel y DU. Disgwylir i'r effeithiau yng Nghymru fod yn eithaf tebyg o ran eu natur a'u graddfa.

Mae'r economi yng Nghymru wedi ymwreiddio'n ddwfn o fewn economi ehangach y DU, gyda chysylltiadau pwysig yn deillio o<sup>2</sup>:

- busnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu ar draws y ffin
- cadwyni cyflenwi trawsffiniol
- llifioedd masnach yn achos nwyddau a gwasanaethau gorffenedig
- llifioedd cymudo a rhyngddibyniaethau'r farchnad
- trosglwyddiadau cyllidol
- fframwaith polisi ariannol a chyllidol cyffredin
- effeithiau cyfradd gyfnewid sterling, sy'n erydu incymau gwirioneddol a phŵer gwario ledled y DU.

<sup>2</sup> Am y tri ffactor cyntaf sy'n dilyn, bodolaeth cyd-destun cyfreithiol a rheoleiddio sy'n gyffredin i Gymru a Lloegr i raddau helaeth ac agosrwydd daearyddol yw'r galluogwyr allweddol.

Nid yw'n syndod yn y cyd-destun hwn, dros tymor byr i ganolig, ac o'i asesu ar sail "y pen<sup>3</sup>, fod yr economi yng Nghymru'n dilyn hynt tebyg i hynt y DU gyfan, ond gyda rhywfaint o amrywiad ar hap o un cyfnod i'r llall<sup>4</sup>.

Mae rhywfaint o dadansoddiad wedi dangos y gallai effeithiau andwyol Brexit ar Gymru fod yn fwy na'r cyfartaledd i'r DU yn gyfan. Mae hyn oherwydd bod y sectorau ym maes gweithgynhyrchu y mae Cymru'n arbenigo ynddynt yn dibynnu'n arbennig ar farchnadoedd Ewropeaidd. Er hynny, mae llawer yn dibynnu ar ba ffurf fydd gan Brexit a natur y ffrithiant ychwanegol a gyflwynir.

Gan adlewyrchu hyn, o ddadansoddi canlyniad lle y cedwir trefniadau marchnad led-sengl ar gyfer nwyddau, ond ddim gwasanaethau, awgrymir mai mewn rhanbarthau sy'n cael eu dominyddu gan wasanaethau, yn enwedig Llundain y gwelir yr effeithiau mwyaf. Ar y llaw arall, pe bai rhwystrau sylweddol yn cael eu gorfodi ar fasnach mewn nwyddau, byddai'r effaith ar ei gwaethaf mewn ardaloedd sy'n arbenigo fwyaf mewn gweithgynhyrchu, gan gynnwys Cymru wrth gwrs.

Yn ogystal, dangosodd ymchwil a wnaed gan Llywodraeth Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd y gallai ffactorau sy'n benodol i fusnes (megis eu rôl benodol mewn cadwyni cyflenwi arbennig) fod yn bwysicach ar gyfer eu rhagolygon na'r sector eang y maent yn perthyn iddo.

Mae'r ystyriaethau hynny yn cyfyngu ar gwerth asesiadau syml o effeithiau gofodol ledled Cymru yn seiliedig ar gysylltiad â'r sector. Mae'r cysylltiadau a ddisgrifir uchod yn arwain at drawsyrro effeithiau yn ddaearyddol, gydag effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau ar draws yr economi yn debygol o ddominyddu effeithiau lleol<sup>5</sup>.

Ymhellach, dros y tymor hir, mae effaith y sefyllfaoedd Brexit mwy andwyol yn debygol o fod ar ffurf gostyngiadau mewn buddsoddiad a thwf is mewn cynhyrchiant, yn hytrach na cholli swyddi a chau gweithfeydd y gellir eu nodi'n haws.

Hyd yn oed os yw swyddi'n cael eu colli a gweithfeydd yn cael eu cau, bydd yn anos eu priodoli yn ddiamwys i Brexit. Mae'r economi yn newid ac yn cael ei ailstrwythuro drwy'r amser, gyda rhyw 2,000 o swyddi'n cael eu colli a'u creu mewn wythnos arferol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae marchnadoedd llafur lleol yn mynd i'r afael â'r newid cyson hwn trwy'r broses o ddiinistr creadigol.

Y wers sydd wedi'i dysgu yn sgil dirwasgiadau economaidd blaenorol a chyfnodau o newid strwythurol dwys (megis yr 1980au), yw mai'r bobl sy'n dioddef fwyaf yw'r rhai sydd eisoes o dan fwyaf o anfantais o safbwynt y farchnad lafur. Fel rheol y rhai â lefelau sgiliau is neu sydd ag anabledd neu afiechyd neu sydd o grwpiau cydraddoldeb sy'n dioddef canlyniadau andwyol yn y

farchnad lafur. Mae'r lleoedd sy'n dioddef fwyaf yn tueddu i fod y rhai â'r crynodiadau uchaf o bobl â'r nodweddion sydd newydd gael eu disgrifio.

Mae'r effeithiau mwyaf difrifol yn debygol o gael eu gweld mewn lleoedd lle y mae crynodiadau o anfantais ynghyd â chyfran uchel o gyflogaeth mewn busnesau yr effeithir arnynt yn lleol ac economi leol sy'n llai cydnerth. Er hynny, mae'r cymhlethdod a ddisgrifir uchod wrth nodi busnesau dan fygythiad yn awgrymu bod dadansoddiad o achosion penodol yn ffordd fwy realistig o nodi bygythiadau dwysach i'r economi na modelu generig.

Un o ganlyniadau allweddol y gostyngiad mewn twf a ddisgwylir o dan y trefniadau masnachu newydd yw sylfaen drethu sy'n wannach nag y byddai fel arall. Mae'n debygol mai ardaloedd llai cyfoethog sy'n dibynnu'n anghymesur ar gronfeydd cyhoeddus fydd yn dioddef fwyaf. Mae hyn yn cynnwys Cymru wrth gwrs, ac fe gâi'r effeithiau hynny eu cymhlethu pe na bai'r cyllid y mae Cymru'n ei gael oddi wrth yr UE yn cael ei ddisodli yn llawn gan Lywodraeth y DU ar sail barhaus.

3 Mae'r boblogaeth a cyfanswm GVA wedi tyfu'n arafach yng Nghymru nag yn y DU yn gyfan.

4 Mae gan Llywodraeth Cymru ysgogiadau polisi allweddol, ond mae'r rhain yn gweithredu yn bennaf ar ochr "cyflenwi" yr economi a byddai disgwyl iddynt gael effaith dros y tymor canolig i hir.

5 Gallai fod eithriadau pwysig lle bo sector, neu hyd yn oed busnes unigol yn gryf iawn mewn economi leol llai cydnerth.

